**CYNGOR**

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

<u>**Aelodau sy'n Bresennol:**</u> <u>**Dydd Mercher, 25 Mai 2022**</u>

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Cynghorydd John Warman** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Cynghorydd Del Morgan** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, T.Bowen, W.Carpenter, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.Dacey, H.Davies, H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Galsworthy, N.Goldup-John, S.Grimshaw, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, J.Henton, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, C.James, N.Jenkins, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, C.Jordan, S.A.Knoyle, E.V.Latham, C.Lewis, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, R.Mizen, K.Morris, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, M.Spooner, D.Thomas, S.Thomas, D.Whitelock, C.Williams, L.Williams a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, N.Pearce, A.D.Thomas, A.Jarrett, C.Griffiths, M.Shaw, S.Curran, J.Woodman-Ralph |

---

## 1. <u>CROESO A GALW'R RHESTR</u>

Croesawodd y Maer bawb a oedd yn bresennol a galwyd yr enwau.

## 2. <u>CYHOEDDIADAU'R MAER</u>

Roedd yn ofid mawr i'r Maer hysbysu'r cyngor am farwolaeth y cyn-Gynghorydd Andrew Tutton, a gynrychiolodd Ward Port Talbot rhwng 2004 a 2012, a'r cyn-Gynghorydd John Sullivan, a gynrychiolodd Ward Aberafan rhwng 2004 a 2012.

Hefyd, hysbyswyd y cyngor am farwolaeth Alistair Borthwick, a fu'n gweithio yn y Gwasanaethau Democrataidd am nifer o flynyddoedd cyn iddo ymddeol.

Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod y cyngor.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL AC ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER 2022/2023.

Briffiwyd y cyngor gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar ofynion cyfreithiol Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Chyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2022/2023 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD**: Yng ngoleuni trafodaethau parhaus rhwng pleidiau gwleidyddol ynglŷn â chynnwys y cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023, rhoi cymeradwyaeth i ohirio paragraffau (b) ac (c) o baragraff 2 o'r adroddiad i gyfarfod nesaf y cyngor.

## 5. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL AC AILGYFANSODDI’R CYNGOR 2022/2023

Briffiwyd y cyngor gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar ofynion cyfreithiol Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Chyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2022/2023 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD**: Yng ngoleuni trafodaethau parhaus rhwng pleidiau gwleidyddol ynglŷn â chynnwys y cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023, ohirio eitemau (e) i (i) o baragraff 2 tan gyfarfod nesaf y cyngor.

6. **CYNLLUN DIRPRWYO**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad, ac esboniodd i'r Aelodau, gan ei fod wedi'i gytuno i ohirio'r ddau adroddiad blaenorol, ei bod yn bwysig rhoi trefniadau gwneud penderfyniadau ar waith tan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi'i gyfansoddi'n llawn fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** 1. Bod unrhyw faterion sydd fel arfer yn gofyn am benderfyniad gan y Cabinet neu Fyrddau'r Cabinet, Aelodau'r Cabinet, unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor y Cyngor, ac y mae angen, ym marn y Prif Weithredwr, wneud penderfyniad yn eu cylch yn ystod y cyfnod o 25 Mai 2022 tan ddyddiad cyfarfod nesaf y cyngor, yna bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniad ac awdurdodi unrhyw gamau gweithredu ar y materion dan sylw, yn amodol ar y canlynol:

(a) mae'n rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir gydymffurfio â fformat adrodd arferol, gan gynnwys datganiad cydymffurfio a rheswm dros benderfyniad, ac eithrio hynny, cânt eu rhoi ar waith ar unwaith heb unrhyw ofyniad galw i mewn;

(b) bydd pob penderfyniad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Aelodau;

(c) ni fydd y ddirprwyaeth hon yn cynnwys unrhyw benderfyniad ar geisiadau cynllunio y mae Pennaeth y Pwyllgor Cynllunio yn eu hystyried yn rhai brys fel arfer, oni bai fod y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn ystyried ei fod yn fater brys yng nghyd-destun amserlenni statudol; ac ni fydd yn cynnwys penderfyniadau ar unrhyw faterion cynllunio yr ystyrir eu bod yn "ddadleuol" ym marn y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd.

(ch)Wrth arfer y pwerau dirprwyedig uchod, bydd gofyn i'r Prif Weithredwr ymgynghori ag arweinwyr pob grŵp gwleidyddol.

2. Bod y Maer neu'r Dirprwy Faer yn cael ei awdurdodi i fod yn bresennol wrth agor tendrau yn ystod y cyfnod o 25 Mai 2022 hyd at ddyddiad cyfarfod nesaf y cyngor.

## 7. HYSBYSIAD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFN) CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw Rybudd o Gynnig.

## 8. CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA RHYBUDD, O DAN REOL 9.2 O REOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 9. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**